Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

# Gorsaf Bŵer Gwyndod

# Cofnod o Gyngor Adran 51
# Fersiwn: 24 Medi 2026

Mae'r ddogfen hon yn gofnod o'r cyngor a51 a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio i'r ymgeisydd, sef Great British Energy – Nuclear, yn ystod y cam cyn-ymgeisio. Caiff ei diweddaru gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl pob rhyngweithiad â'r ymgeisydd y rhoddwyd cyngor a51 ynddo.

Bydd yr ymgeisydd bob amser yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gofnod drafft yr Arolygiaeth Gynllunio o'r cyngor a51 a roddwyd cyn iddo gael ei gyhoeddi ar dudalen berthnasol y prosiect ar y wefan Dod i Hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol.

**Rôl y cofnod o gyngor yn ystod y cam derbyn**

Mae adran 55(4) Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried, ymhlith pethau eraill, i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi ystyried y cyngor a51 a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio mewn cysylltiad â'r cais wrth benderfynu a ellir derbyn y cais i'w archwilio. Mae cyngor Adran 51 yn cynnwys:

- cyngor a roddwyd ar ymgeisio am orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu
- cyngor a roddwyd ar wneud sylwadau ynglŷn â chais am orchymyn sy'n rhoi cydsyniad datblygu

Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio'r cofnod hwn o gyngor fel yr offeryn i ddangos:

- ystyriaeth o'r cyngor a51 a roddwyd i'r ymgeisydd mewn cysylltiad â'r cais
- ystyriaeth o unrhyw gyngor a51 a roddwyd i eraill mewn cysylltiad â'r cais

Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno fersiwn derfynol o'r cofnod hwn o gyngor sy'n dangos ystyriaeth o'r holl gyngor a51 a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystod y cam cyn-ymgeisio yn rhan o'r cais.

| [Enw'r prosiect] – Mynegai cyfarfodydd a chyngor yr ymgeisydd | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** | **Trosolwg o'r cyfarfod** |
| 24 Medi 2026 | Diweddariad ar y Prosiect, yn ymdrin â'r canlynol:<br>• Diweddariad ar y prosiect<br>• Y strategaeth gydsynio<br>• Materion amgylcheddol<br>• Materion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)<br>• Dibyniaethau eraill<br>• Y camau nesaf |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

| Gorsaf Bŵer Gwyndod – Cofnod o gyngor a51 a roddwyd i'r ymgeisydd | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod: 24 Medi 2026** | | |
| **Pwnc** | **Cyngor a51 a roddwyd** | **Ystyriaeth yr ymgeisydd o'r cyngor a51 a roddwyd** |
| Diweddariad ar y prosiect | Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r ymgeisydd sawl adweithydd y mae'n bwriadu ei gynnwys o fewn cwmpas y datblygiad arfaethedig a sut mae'n bwriadu ymgynghori ar nifer yr Adweithyddion Modiwlar Bach (SMRau) sydd i'w cyflwyno yn rhan o'r datblygiad arfaethedig. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn disgwyl i'r safle allu cynnal rhwng 3 a 6 o unedau. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i sicrhau bod ei ddull o ymgynghori ynglŷn â nifer yr adweithyddion yn cael ei esbonio a'i gyfleu'n glir trwy'r broses ymgynghori. Dywedodd yr ymgeisydd y bydd nifer derfynol yr SMRau yn cael ei nodi a'i asesu yn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), ac y bydd Great British Energy – Nuclear (GBE-N) yn cyfleu hyn trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn cyflwyno.<br><br>Amlygodd yr Arolygiaeth y cyfyngiad pwysau o saith tunnell ar Bont Menai a chynghorodd yr ymgeisydd i ystyried sut | Dangos ystyriaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | gallai hyn effeithio ar logisteg adeiladu a chyflawni'r prosiect.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a yw'r gwaith gweithgynhyrchu oddi ar y safle (sydd wedi'i leoli yn Derby), a fyddai'n gwneud rhai o gydrannau'r datblygiad arfaethedig, wedi cael ei adeiladu. Cadarnhaodd yr ymgeisydd nad yw wedi cael ei adeiladu, a nododd y byddai'n cael ei gydsynio a'i adeiladu ar wahân i brosiect Gwyndod.<br><br>Dywedodd yr Arolygiaeth y gallai'r rhaglen gyflawni ar gyfer y cyfleuster gweithgynhyrchu effeithio ar y rhaglen ar gyfer y datblygiad arfaethedig, a chynghorodd yr ymgeisydd i ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn unol â hynny. | |
| Y strategaeth gydsynio | Cynghorodd yr Arolygiaeth y gallai fod yn fuddiol paratoi crynodeb gweledol o faterion a allai effeithio ar y datblygiad arfaethedig, er enghraifft ar ffurf siart lif a ategir gan sgoriau Coch, Melyn a Gwyrdd.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai risgiau a allai effeithio ar y rhaglen DCO gael eu hamlygu, eu monitro a'u cynnal o fewn cofrestr risgiau Coch, Melyn a Gwyrdd.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a yw'r ymgeisydd yn bwriadu llunio Datganiad Crynhoi Prif Feysydd Anghytundeb (PADSS) gyda rhanddeiliaid perthnasol. Cadarnhaodd yr | |



SWYDDOGOL

| | | |
|---|---|---|
| | ymgeisydd y bydd yn casglu'r wybodaeth hon, ond nad yw wedi cytuno ar y fformat eto.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth fod y templed PADSS yn ddefnyddiol gan ei fod yn cynnwys dulliau i esbonio a datrys materion a allai godi. Er enghraifft, beth yw'r mater, sut gellir ei ddatrys a phryd mae datrysiad yn debygol o ddigwydd.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ddogfen rhaglen gael ei diweddaru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i adlewyrchu rhaglen ddisgwyliedig y prosiect yn gywir.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth hefyd i'r ymgeisydd roi o leiaf dri mis o rybudd, lle bo'n rhesymol ymarferol, os bydd yn bwriadu symud i haen gwasanaeth wahanol.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i gynnwys dyddiadau dangosol ar gyfer cyfarfodydd diweddaru ar y prosiect yn y dyfodol yn y ddogfen rhaglen.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth, os bydd gan yr ymgeisydd bryderon ynglŷn â nifer y cyfarfodydd sydd ar gael yn yr haen gwasanaeth a ddewiswyd ganddo, y dylid blaenoriaethu cyfarfodydd i drafod materion allweddol, risgiau a cherrig milltir y prosiect. | |



SWYDDOGOL

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorodd yr Arolygiaeth, o dan yr haen safonol, fod ei thîm gwasanaethau amgylcheddol yn gallu mynychu uchafswm o bum cyfarfod cynllun tystiolaeth fel arsylwr. Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n fwyaf buddiol defnyddio'r adnodd hwn ar gyfer materion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) neu faterion eraill sy'n debygol o fod yn amlwg yn ystod yr archwiliad. Cynghorodd yr Arolygiaeth ei bod yn ddefnyddiol rhoi gwybod i'r Arolygiaeth am gynnydd trafodaethau â rhanddeiliaid, ac i ba raddau y mae materion allweddol wedi'u datrys ai peidio. | |
| Materion amgylcheddol | Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn debygol o gyflwyno gwaith rhagarweiniol, trwy gydsyniadau ar wahân (e.e. cais o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref), a allai gynnwys gwaith clirio ecolegol rhagarweiniol. Cynghorodd yr Arolygiaeth fod rhaid i'r hyn y mae'r ymgeisydd wedi'i ddefnyddio fel sylfaen yn yr asesiadau amgylcheddol gael ei egluro yn y Datganiad Amgylcheddol, a bod y Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio holl effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth i ba raddau y bwriedir dibynnu ar wybodaeth o gynigion blaenorol Wylfa Newydd. Cynghorodd yr ymgeisydd fod llinell sylfaen newydd yn cael | |

| | | |
|---|---|---|
| | ei datblygu i raddau helaeth, er y gellid dwyn rhai setiau data presennol, fel gwybodaeth archaeolegol, ymlaen ac ychwanegu atynt, lle bo'n briodol. | |
| Materion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) | Gofynnodd yr Arolygiaeth ynglŷn â dull arfaethedig yr ymgeisydd o fynd i'r afael â materion HRA ac a yw'n disgwyl y bydd angen rhanddirymiadau. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn bwriadu dilyn y broses HRA ac osgoi rhanddirymiadau, lle bo'n bosibl.<br><br>Dywedodd yr ymgeisydd y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar sawl safle Ewropeaidd ac y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hasesu trwy'r broses HRA. | |
| Dibyniaethau eraill | Ceisiodd yr Arolygiaeth eglurhad ynglŷn â'r cynigion ar gyfer cysylltu â'r grid. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'r cysylltiad yn cael ei gyflwyno trwy gais DCO ar wahân a'i fod ar y cam cynllunio ar hyn o bryd. Nododd yr ymgeisydd er bod y cysylltiad dipyn o ffordd i lawr y rhestr, y gallai ei statws fel prosiect gan y llywodraeth ddarparu cyfleoedd i gyflymu cynnydd.<br><br>Ceisiodd yr Arolygiaeth ddiweddariad ar ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Esboniodd yr ymgeisydd y byddai gwybodaeth i gefnogi'r cais Trwyddedu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Amgylcheddol – Gweithgareddau Sylweddau Ymbelydrol (EP-RSA) yn cael ei chyflwyno gyda'r cais DCO, tra byddai ceisiadau am drwyddedau gweithredol yn cael eu gwneud ar ôl i DCO gael ei ganiatáu. Cynghorodd yr ymgeisydd, er hynny, y dylai digon o wybodaeth fod ar gael ar y cam ymgeisio i ddangos nad oes rhwystr amlwg rhag sicrhau'r trwyddedau sy'n ofynnol.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a ddisgwylir i faterion trwyddedu sydd wedi effeithio ar brosiectau adweithydd niwclear mwy o faint yn draddodiadol fod yn wahanol ar gyfer Adweithyddion Modiwlar Bach (SMRau). Esboniodd yr ymgeisydd y byddai'r un prosesau rheoli'n berthnasol i faterion fel tanwydd a rheoli gwastraff. Er y gallai rhai agweddau ar y prosiect fod yn wahanol o ran graddfa, nododd yr ymgeisydd nad yw llawer o ystyriaethau trwyddedu'n uniongyrchol gysylltiedig â maint yr adweithydd, a disgwylir gofynion seilwaith sylweddol, fel systemau oeri, o hyd.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y bydd angen gwneud cais am Drwydded Forol ar wahân ar gyfer gwaith archwilio tir alltraeth cyn unrhyw gais DCO, yn ôl pob tebyg. Gofynnodd yr Arolygiaeth a nodwyd lleoliad | |

| | | |
|---|---|---|
| | yr ardal arolygu alltraeth, neu a fyddai'n cael ei gadarnhau trwy'r broses Adroddiad Cwmpasu. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn bwriadu cynnwys manylion am yr ardal arolygu arfaethedig yn yr Adroddiad Cwmpasu, lle bo'n bosibl.<br><br>Ceisiodd yr Arolygiaeth eglurhad ynglŷn â chynigion ar gyfer logisteg adeiladu, llety gweithwyr a mesurau lliniaru priffyrdd. Esboniodd yr ymgeisydd ei fod yn ystyried cyfleuster parcio a theithio oddi ar y safle, canolfan(nau) logisteg a llety gweithwyr yn rhan o'r datblygiad arfaethedig. Nododd yr ymgeisydd fod cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pontydd i Ynys Môn wedi dod yn ystyriaeth bwysicach ac, yn wahanol i gynigion blaenorol, mae canolfan logisteg ar y tir mawr yn cael ei harchwilio i helpu i reoli traffig a symud deunyddiau ar draws y bont.<br><br>Cynghorodd yr ymgeisydd hefyd y disgwylir bellach i gynlluniau ffordd osgoi, a oedd wedi'u cynnwys yn y cynigion DCO yn flaenorol, gael eu hyrwyddo ar wahân o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Esboniodd yr ymgeisydd fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r dull hwn a bwriedir iddo hwyluso cyflawni mesurau lliniaru allweddol yn brydlon. | |
| Y camau nesaf | Cynghorodd yr Arolygiaeth y gallai cyfarfod arall cyn yr ymgynghoriad fod yn fuddiol i | |

| | | |
|---|---|---|
| | drafod dull ymgynghori arfaethedig yr ymgeisydd.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i adolygu'r canllawiau perthnasol cyn cwblhau unrhyw ddiwygiadau i'w ddull ymgynghori arfaethedig yn derfynol.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r ymgeisydd nodi pa fis y mae'n bwriadu cyflwyno Cais Cwmpasu cyn gynted â phosibl.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth ei bod yn bwriadu cyhoeddi tudalen we'r prosiect erbyn 19 Tachwedd 2026 a gofynnodd a oedd yr ymgeisydd yn bwriadu lansio ei wefan ar gyfer y prosiect ar yr un pryd. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn bwriadu gwneud hynny.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth, petai'r ymgeisydd yn dewis symud i'r haen gwasanaeth manylach, y gallai Arolygydd adolygu mwy o ddogfennau drafft yn fanylach a rhoi sylwadau yn unol â threfniadau perthnasol y gwasanaeth. | |

| **Dyddiad y cyfarfod: DD Mis BBBB** | | |
|---|---|---|
| **Pwnc** | **Cyngor a51 a roddwyd** | **Ystyriaeth yr ymgeisydd o'r cyngor a51 a roddwyd** |
| Disgrifiad o'r pwnc | Cyngor a51 a roddwyd | Dangos ystyriaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| Gorsaf Bŵer Gwyndod – Cofnod o gyngor a51 a roddwyd i eraill | | |
|---|---|---|
| **Y sawl y rhoddwyd cyngor a51 iddo** | **Cyngor a51 a roddwyd** | **Ystyriaeth yr ymgeisydd o'r cyngor a51 a roddwyd** |
| Enw a/neu sefydliad | Crynodeb o'r cyngor a51 a roddwyd a dolen i'r gofrestr gyngor | I'w chwblhau gan yr ymgeisydd |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |



SWYDDOGOL